Lefel 4

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

IONAWR 2020

Cynnwys

	Rhif y dudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	3
Cynnwys y pwnc	4
Cynllun asesu	4
Canlyniadau	5
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	5
Gofynion rhesymeg	6
Gofynion gweithredol	7
Atodiad A	9

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddiol** dan **Amod B7** yr *Amodau Cydnabod Safonol (Hydref 2018)*[1]*: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn gosod y meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Datblygwyd y rhain trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb a'r deunyddiau asesu ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i gael ei gyflwyno gan ystod o ddarparwyr dysgu, gan gynnwys dysgu yn y gwaith, addysg bellach ac addysg uwch, i ddysgwyr 18 oed neu'n hŷn.

Lle bo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Bydd y meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon yn dod i rym o fis Ionawr 2020 ymlaen ac yn cael eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant[2] er mwyn addysgu rhaglenni dysgu yng Nghymru a ariennir yn gyhoeddus. Mae'r gyfres hon yn cynnwys cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Bydd yr holl gymwysterau yn y gyfres yn cael eu cyfyngu i ddim ond un ffurflen fesul cymhwyster am gyfnod o bum mlynedd. Mae cyfnod y cymhwyster hwn yn dechrau ar 1 Medi 2020. Golyga hyn mai dim ond un corff dyfarnu all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a ddigwyddodd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi contractio gyda chonsortiwm o City & Guilds of London Institute a CBAC i gyd-ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres.

Bydd Cymwysterau Cymru ond yn cymeradwyo cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a osodwyd yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a osodwyd yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3]. Wrth ddatblygu cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Mynediad Teg trwy Ddylunio*[4]. Rhaid i'r corff dyfarnu a

[2] http://qualificationswales.org/media/2535/230517-determination-to-restrict-hsc-final-e.pdf
[3] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cyrff-dyfarnu/monitro-cyrff-dyfarnu/
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf

gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a osodwyd yn y *contract consesiwn a ddyfarnwyd* wrth ddatblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Lle mae gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a osodwyd yn y ddogfen hon yn gwahaniaethu i'r rhai a ragnodwyd yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd yn cymryd blaenoriaeth.

Strwythur a dyluniad y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnig i ddysgwyr ardystiad o gymhwyster gyda Chyfanswm Amser Cymhwyster (TQT) o 620 awr (62 credyd) a bydd angen iddo gael ei ddiffinio mewn perthynas ag Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH).

2. Mae cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymgorffori cynnwys gorfodol (Grŵp A) a chynnwys dewisol (Grŵp B) (gweler Atodiad A).

3. Rhaid i'r cynnwys dewisol (Grŵp B) gael ei grwpio mewn saith llwybr cymeradwy:

    3.1 Arwain cefnogaeth i leihau arferion rhwystrol trwy ddulliau cadarnhaol o droi at ymddygiad;

    3.2 Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl;

    3.3 Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gyda dementia;

    3.4 Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gydag anabledd dysgu/awtistiaeth;

    3.5 Arwain ymarfer i blant a phobl ifanc anabl;

    3.6 Arwain ymarfer gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal; ac

    3.7 Arwain ymarfer gyda theuluoedd a gofalwyr.

4. Rhaid mai dyma deitl y cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau:

    Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

5. Rhaid i ddyluniad Lefel 4 mewn Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol sicrhau bod:

5.1 nodau ac amcanion y pwnc yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiadau er mwyn galluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth;

5.2 ei fod yn cefnogi dilyniant dysgwyr o gymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

6. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol nodi unrhyw reolau cyfuno sy'n berthnasol i'r unedau dewisol.

Nodau ac amcanion y pwnc

7. Rhaid i Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol alluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer yng nghyd-destun eu harbenigedd dethol. Yn benodol, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

7.1 datblygu ac yn defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y llwybr dethol;

7.2 datblygu a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, modelau a dulliau sy'n berthnasol i'r llwybr dethol;

7.3 datblygu a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i gynnal a gwella canlyniadau i unigolion yn y llwybr dethol;

7.4 datblygu'n ddysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyrgar gyda meddyliau chwilfrydig yng nghyd-destun y llwybr dethol;

7.5 defnyddio dull chwilfrydig, beirniadol o wahaniaethu ffeithiau a barnau; er mwyn adeiladu dadleuon a gwneud barnau deallus yng nghyd-destun y llwybr dethol mewn lleoliadau/cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol;

7.6 datblygu hunanymwybyddiaeth er mwyn gwella ymarfer yn y llwybr dethol;

7.7 datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn yn y llwybr dethol;

7.8 defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol yn eu rôl.

Cynnwys y pwnc

8. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

9. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnwys y cynnwys gorfodol (Grŵp A) a nodwyd yn Atodiad A

10. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnwys y llwybrau canlynol:

    10.1 Arwain cefnogaeth i leihau arferion rhwystrol trwy ddulliau cadarnhaol o droi at ymddygiad;

    10.2 Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl;

    10.3 Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gyda dementia;

    10.4 Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gydag anabledd dysgu/awtistiaeth;

    10.5 Arwain ymarfer ar gyfer plant a phobl ifanc anabl;

    10.6 Arwain ymarfer gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac

    10.7 Arwain ymarfer gyda theuluoedd a gofalwyr.

11. Mae'r cynnwys ar gyfer pob llwybr wedi'i nodi yn Atodiad A (Grŵp B).

Cynllun asesu

12. Bydd Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei hasesu trwy:

    12.1 bortffolio tystiolaeth;

    12.2 prosiect; a

    12.3 thrafodaeth broffesiynol.

13. Rhaid i bob asesiad (y manylir arno ym mharagraff 12) gwmpasu cyfran sylweddol o'r cynnwys. Rhaid i'r holl gynnwys gorfodol a ddisgrifir yng Ngrŵp A, a'r cynnwys ar gyfer y llwybr hwnnw a ddisgrifir yng Ngrŵp B, gael ei gwmpasu ar draws yr asesiadau, a hynny ar gyfer pob llwybr. O gyflwyno'r cymhwyster i'w gymeradwyo, bydd yn ofynnol i'r corff dyfarnu ddarparu rhesymeg sy'n esbonio'i ddull o benderfynu pa gydran asesu fydd yn ymdrin â pha gynnwys.

14. Rhaid i'r fanyleb nodi math a swm y dystiolaeth i'w casglu at ddibenion asesu.

15. Rhaid i'r cymhwyster fod o alw cymaradwy ar gyfer yr holl ddysgwyr, ni waeth beth yw'r unedau a gynhaliwyd.

16. Rhaid i'r cynllun asesu sicrhau bod:

    16.1 y meini prawf a'r gofynion ar gyfer yr ymarfer a wnaed, ac asesiad yr ymarfer hwn wedi'u manylu'n glir;

    16.2 unrhyw amodau a ganiateir ar gyfer asesu trwy efelychu wedi'u manylu arnynt yn glir, gan gynnwys beth fyddai'n cyfansoddi amgylchedd gwaith realistig.

17. Rhaid tystio'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer y cynnwys dewisol a wnaed trwy'r asesiadau.

18. Rhaid i'r meini prawf marcio ddynodi sut mae pob agwedd ar asesu'n ymwneud â'r canlyniadau dysgu.

19. Rhaid i gyfleoedd asesu ar gyfer Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod ar gael trwy gydol y flwyddyn.

20. Rhaid i'r fanyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnwys manylion y cyfleoedd i ailgyflwyno.

Canlyniadau

21. Bydd y dysgwyr sy'n llwyddo i gwblhau'r holl asesiadau angenrheidiol (gan fodloni unrhyw reolau cyfuno) yn cael tystysgrif.

22. Rhaid i deitl y cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau gynnwys enw'r llwybr cymeradwy mewn cromfachau (Gweler meini prawf cymeradwyo 3.)

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

23. Wrth gyflwyno cymhwyster i'w gymeradwyo gan Gymwysterau Cymru, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu:

    23.1 dogfen fanyleb;

    23.2 ystod gynrychioliadol o ddeunyddiau asesu sampl, sy'n dangos ystod o lwybrau cymaradwy;

23.3 dogfen esboniadol (dogfen resymeg) sy'n amlinellu'r rhesymeg am nodweddion dylunio allweddol y cymhwyster arfaethedig a'u haliniad i ganfyddiadau Adolygiad y Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae[5].

Gofynion rhesymeg

24. Pwrpas y ddogfen resymeg yw cefnogi adolygiad y cymhwyster a'r broses gymeradwyo ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

25. Rhaid i'r ddogfen resymeg gynnwys esboniad ar gyfer:

25.1 strwythur y cymhwyster, sy'n esbonio'r rhesymau am y ffordd y mae'r cynnwys wedi'i saernïo;

25.2 y dull o ddatblygu'r tasgau;

25.3 y strwythur asesu, gan gynnwys lle bo'n briodol, nifer, dyraniad marciau a pharhad asesiadau;

25.4 y cyfleoedd asesu sydd ar gael a'r dull o sicrhau bod y cyfleoedd hynny ar gael trwy gydol y flwyddyn;

25.5 dehongliad y canlyniadau dysgu a sut maen nhw'n berthnasol i'r gwahanol gydrannau asesu;

25.6 dyluniad y deunyddiau a'r cyfarwyddyd asesu sampl, gan gynnwys math ac ystod y tasgau asesu ar draws y cymhwyster a'u perthynas â'r canlyniadau dysgu;

25.7 cynllun a defnydd y meini prawf marcio;

25.8 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

25.9 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymwysterau hyn yn gyson ac i'r lefel briodol gan gynnwys y broses ar gyfer gosod a chynnal safonau;

25.10 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg ar gyfer y ffin pasio/methu arfaethedig ar lefel asesu a chymhwyster.

[5] https://qualifications.wales/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

Gofynion gweithredol

26. Rhaid i'r fanyleb ac/neu'r wybodaeth gefnogol nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd (o ran pwnc ac asesu/sicrhau ansawdd) i aseswyr, aswirwyr ansawdd mewnol ac aswirwyr ansawdd allanol sy'n briodol ar gyfer cymhwyster ar y lefel hon.

27. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys manylion clir o ofynion gweithredol, gan gynnwys:

    27.1 cofnodion;

    27.2 sicrhau ansawdd;

    27.3 asesiad allanol a broseswyd.

Gwybodaeth bellach	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Ymholiadau Cymwysterau Cymru Adeilad Q2 Lôn Pencarn Parc Imperial Coedcernyw Casnewydd NP10 8AR ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Atodiad A – Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rhaid i fanyleb Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnwys y cynnwys a'r canlyniadau dysgu canlynol. Mae hyn yn gwneud 100% o'r cyfanswm cynnwys a chanlyniadau dysgu'r cymhwyster.

Grŵp A: Cynnwys gorfodol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarfer gorfodol cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
1. Deddfwriaeth, damcaniaethau a modiwlau ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn	1.1. Deall pwysigrwydd parch am unigrwydd, cydraddoldeb ac amrywiaeth 1.2. Deall y defnydd o ddull seiliedig ar hawliau i asesu angen a risg 1.3. Deall rôl asesiadau cynhwysol o angen unigol mewn iechyd a gofal cymdeithasol 1.4. Deall gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd 1.5. Deall cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn 1.6. Deall damcaniaethau cymdeithasegol a'u perthynas ag ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn 1.7. Deall damcaniaethau seicolegol a'u perthynas ag ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn 1.8. Deall y model bioseicogymdeithasol fel dull o ddylanwadu ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn 1.9. Deall diogelu ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn
2. Ymarfer proffesiynol	2.1. Sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus yr hunan yn bodloni safonau a gofynion ac yn adlewyrchu arfer gorau 2.2. Cefnogi datblygiad ymarfer pobl eraill 2.3. Arwain ymarfer sy'n bodloni gofynion ar gyfer cyflwyno, cofnodi, adrodd a storio gwybodaeth

Grŵp B: Cynnwys y llwybr

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio'r cynnwys ar gyfer y llwybrau ar gyfer cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
3. Arwain cymorth i leihau arferion rhwystrol trwy ddulliau cadarnhaol o droi at ymddygiad	3.1. Hyrwyddo ymarfer sy'n cefnogi gweithio amlasiantaeth 3.2. Arwain ymarfer sy'n ymgorffori deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cenedlaethol/lleol sy'n sail i ddulliau cadarnhaol o leihau arferion rhwystrol a chefnogi ymddygiad cadarnhaol 3.3. Arwain ymarfer ar gyfer dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn a dulliau seiliedig ar hawliau 3.4. Arwain ymarfer i gyfathrebu'n effeithiol gydag unigolion 3.5. Deall modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau moesegol, seiliedig ar werthoedd i ddefnyddio a gostwng arferion rhwystrol ac ymyriadau rhwystrol 3.6. Arwain datblygiad, gweithrediad, monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol unigolion 3.7. Arwain ymarfer ar gyfer defnydd diogel a gostwng ymyriadau rhwystrol 3.8. Arwain cefnogaeth i unigolion a digwyddiadau dilynol eraill o ymddygiad heriol 3.9. Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu
4. Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl	4.1. Datblygu dealltwriaeth o gyd-destun salwch meddwl a sut caiff ei brofi gan unigolion 4.2. Datblygu dealltwriaeth o rym, gwarthnod a gwahaniaethu 4.3. Rhoi damcaniaethau, modelau a dulliau ar waith i gefnogi ac adfer unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl 4.4. Arwain ymarfer sy'n rhoi ar waith deddfwriaeth, polisi a chanllawiau sy'n cefnogi hawliau unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
	4.5. Cefnogi unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol trwy'r broses gynllunio 4.6. Cefnogi adsefydlu, ailalluogi a chymorth parhaus i unigolion; 4.7. Cefnogi unigolion gyda newidiadau a thrawsnewidiadau 4.8. Datblygu dealltwriaeth ac ystyried ffactorau sy'n digwydd ar yr un pryd 4.9. Datblygu gweithio mewn partneriaeth effeithiol 4.10. Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo'r gwaith o gydbwyso hawliau, cyfrifoldebau a risgiau wrth weithio gydag unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl. 4.11. Darparu cymorth i reoli a lleihau'r risg o sefyllfaoedd argyfyngus 4.12. Hyrwyddo diogelu i unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl
5. Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gyda dementia	5.1. Datblygu dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol sy'n cefnogi hawliau unigolion sy'n byw gyda dementia 5.2. Arwain cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles unigolion 5.3. Arwain cefnogaeth ar gyfer cyfathrebu effeithiol gydag unigolion sy'n byw gyda dementia 5.4. Arwain y gefnogaeth i deuluoedd unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i addasu i ddiagnosis o ddementia, a byw gydag ef 5.5. Arwain cefnogaeth i unigolion sy'n byw gyda dementia i gyflawni canlyniadau cadarnhaol 5.6. Cefnogi cynllunio ar gyfer gofal lliniarol a diwedd bywyd 5.7. Arwain ymarfer sy'n datblygu dulliau cadarnhaol o leihau'r defnydd o ymarferion rhwystrol ac ymyriadau rhwystrol 5.8. Hyrwyddo diogelu unigolion

Meysydd Pwnc	**Canlyniadau Dysgu**
6. Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth	6.1. Datblygu dealltwriaeth o ganfyddiadau a safbwyntiau anabledd dysgu ac awtistiaeth 6.2. Arwain ymarfer ar gyfer dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a dulliau seiliedig ar hawliau, lles, perthnasoedd cadarnhaol a chyfranogiad y gymuned 6.3. Ystod y dulliau cyfathrebu a sut gellir eu defnyddio i gefnogi unigolion 6.4. Arwain y defnydd o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a Chefnogaeth Weithgar 6.5. Deall pwysigrwydd rhywioldeb, mynegiant rhywiol ac iechyd rhywiol 6.6. Cefnogi hybu iechyd, atal ac ymyrraeth gynnar i leihau'r risg o salwch 6.7. Deall Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol 6.8. Arwain ymarfer sy'n cefnogi diogelu

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
7. Arwain ymarfer ar gyfer plant a phobl ifanc anabl	7.1. Datblygu dealltwriaeth o ganfyddiadau, safbwyntiau a natur yr anabledd 7.2. Arwain ymarfer sy'n cynnwys teuluoedd/gofalwyr yn weithgar wrth gefnogi plant anabl 7.3. Rhoi dysgu o ymchwil ar waith a defnyddio ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth mewn gwaith gyda phlant anabl. 7.4. Arwain ymarfer sy'n defnyddio dealltwriaeth o ddatblygiad plant 7.5. Arwain ymarfer sy'n cefnogi plant i ddatblygu ymdeimlad cadarnhaol o'u hunain 7.6. Arwain ymarfer sy'n cefnogi plant yn ystod newid a thrawsnewid 7.7. Arwain cefnogaeth ar gyfer cyfathrebu effeithiol gyda phlant anabl 7.8. Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu a gofal mwy diogel 7.9. Deall pwysigrwydd cefnogi addysg plant 7.10. Arwain ymarfer i gefnogi plant i fyw yn y byd digidol 7.11. Arwain ymarfer sy'n cefnogi maeth a hydradiad plant anabl 7.12. Deall y gefnogaeth ar gyfer gofal iechyd i blant anabl 7.13. Arwain ymarfer sy'n defnyddio ymyrraeth gynnar ac yn atal lleihau'r risg o argyfyngau

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
8. Arwain ymarfer gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal	8.1. Rôl gwasanaethau, trefniadau a lleoliadau arbenigol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal 8.2. Rhoi dysgu o ymchwil ar waith a defnyddio ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc 8.3. Arwain ymarfer sy'n defnyddio dealltwriaeth o ddatblygiad plant 8.4. Hyrwyddo dulliau cyson o ddatblygu a chynnal perthnasoedd calonogol a sefydlog 8.5. Arwain ymarfer sy'n cefnogi datblygiad a chyflawniad addysgol plant a phobl ifanc 8.6. Arwain ymarfer sy'n cefnogi plant i ddatblygu ymdeimlad cadarnhaol o'u hunain 8.7. Arwain ymarfer sy'n cefnogi ymglymiad ystyrlon plant a phobl ifanc wrth asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu eu gofal 8.8. Arwain ymarfer sy'n cefnogi plant a phobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl newid a symudiadau 8.9. Arwain ymarfer sy'n cefnogi perthnasoedd cadarnhaol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal 8.10. Cefnogi plant i fyw yn y byd digidol 8.11. Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu a gofal diogelach 8.12. Arwain ymarfer sy'n defnyddio ymyrraeth ac atal cynnar i leihau'r risg o argyfyngau 8.13. Hyrwyddo cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles plant

9. Arwain ymarfer gyda theuluoedd a gofalwyr	9.1. Defnyddio dysgu o ymchwil ac ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth yn eu gwaith eu hunain gyda theuluoedd/gofalwyr gan gynnwys cymorth ar gyfer hawliau 9.2. Deall pam y gallai fod angen i deuluoedd/gofalwyr droi at gefnogaeth a gwasanaethau 9.3. Arwain y dulliau defnydd sy'n cefnogi datblygiad perthnasoedd proffesiynol cadarnhaol ac ymgysylltiad teuluoedd/gofalwyr 9.4. Arwain cefnogaeth i deuluoedd/gofalwyr sy'n eu helpu i adnabod a chymryd camau i liniaru ffactorau a allai gael effaith negyddol ar y ffordd maen nhw'n gweithredu. 9.5. Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo asesu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, cynllunio, gweithredu ac adolygu cynlluniau ar gyfer teuluoedd/gofalwyr 9.6. Rhoi protocolau rhannu gwybodaeth ar waith wrth weithio gyda theuluoedd/gofalwyr 9.7. Arwain ymarfer sy'n cefnogi teuluoedd/gofalwyr i adeiladu a chynnal perthnasoedd a rhwydweithiau cadarnhaol 9.8. Arwain ymarfer sy'n defnyddio dealltwriaeth o ddatblygiad plant 9.9. Arwain ymarfer sy'n cefnogi teuluoedd/gofalwyr yng nghyflawniad addysgol plant a phobl ifanc 9.10. Arwain ymarfer sy'n cefnogi maeth a hydradiad plant 9.11. Arwain ymarfer sy'n cefnogi teuluoedd/gofalwyr i ddeall pwysigrwydd gofal iechyd da ar gyfer plant 9.12. Cefnogi teuluoedd/gofalwyr i fyw'n ddiogel yn y byd digidol 9.13. Hyrwyddo diogelu

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
	9.14. Cefnogi teuluoedd/gofalwyr i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i reoli sefyllfaoedd argyfyngus